



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Tachwedd 2014 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 November 2014 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cyngorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Llwyd Edwards (*gadael am/left at 8.15pm*), Melfydd George (*gadael am/left at 6.50pm*), Neal Jones, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki (*gadael am/left at 8.15pm*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod. Dymunodd y gorau i'r Cyng. Llwyd Edwards wrth iddo aros am lawdriniaeth. Llongyfarchodd y Cyng. Clive Davies a'i gwmni Telemat ar ennill cytundeb i wasanaethu cyfrifiaduron aelodau'r cynulliad Llywodraeth Cymru.

The Mayor, Cllr Graham Evans, welcomed all to the meeting and wished Cllr Llwyd Edwards well for his pending operation. Cllr Clive Davies and his company Telemat were congratulated on obtaining the valuable contract to service the Welsh Government's assembly members' computers.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng./Cllr Gwynfi Jenkins

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gyngorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
Cyng./Cllr Mark Cole	Cynllunio/Planning A140699

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Hydref.

Confirmation of Minutes of 7 October Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones bod cofnodion cyfarfod y cyngor 7 Hydref yn gywir.

It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Neal Jones that the 7 October council minutes were correct.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Hydref (Mewn pwyllgor).

Confirmation of Minutes of 7 October Council Meeting (In committee).

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 897, eitem 10(a)(i): Cynhelir yr ymchwiliad cyhoeddus yn awr ar 16 Rhagfyr ac nid 15 Rhagfyr.

Tud. 897, eitem 10(a)(ii): Cafwyd cyfarfod gyda'r defnyddwyr yn Yr Hafod i drafod y gwelliannau. Disgwyliar adroddiad yn ôl gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Iachach.

Tud. 897, eitem 10(b)(v): Castell Aberteifi: Mae cadeirydd ymddiriedolwyr Cadwgan wedi rhoi datganiad i'r clerc ynglyn ag ailstrwythuro'r staff (copi wedi ei gynnwys yn eitem 11 Gohebiaeth [197]).

Ymddiheurodd y Cyng. Mark Cole nad oedd rhagor o wybodaeth ar gael a chytunodd fod angen mwy o adwaith oddi wrth bwyllgorau misol yr ymddiriedolwyr. Dywedodd y byddai Stephen Jackson yn sicrhau bod y tri chynghorwr sir yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol. Mae gan y staff gefnogaeth yr undebau yn y mater. Bydd cwmni Scott yn trosglwyddo'r awenau yn ôl i Cadwgan ar 21 Rhagfyr ac edrychir ymlaen i'r agoriad swyddogol yn y gwanwyn. Teimlodd aelodau y dylai cyngor y dref, fel un o'r arianwyr, dderbyn rhagor o

ymgyngoriad ar y datblygiadau ac y dylai cysylltiad agos fod ynghylch y datblygiad mewnol ar y safle.

Cytunwyd gwahodd dau aelod o'r ymddiriedolaeth i is-bwyllgor ar 25 Tachwedd am 5.30yh yn yr Ystafell Gynhadledd. Cyhoeddwyd hefyd bod cyfarfod blynyddol Cadwgan i gymryd lle ar 26 Tachwedd am 5.30yh yn festri Capel Mair.

Tud. 898, eitem 10(a)(iv): Dywedodd y Cyng. Mark Cole y byddai'n gofyn i Cantref am ragor o wybodaeth er mwyn pwysu ar y cyngor sir i gofrestru Lôn Bingham.

Tud. 898, eitem 10(c)(ii): Mae'n dda gan y Cyng. Cole gadarnhau bod y sefyllfa gwrthgymdeithasol yn Stryd Napier yn awr wedi tawelu a bod Cymdeithas Gofal Ceredigion wedi delio yn effeithlon â'r mater.

Tud. 901, eitem 12 (*Graffiti*): Dywedodd y Cyng. Neal Jones ei fod wedi ymdrechu i waredu'r graffiti mewn mannau yn y dref, ond anodd bu'r dasg. Diolchodd y Maer i'r Cyng. Jones am ei ymdrech.

Tud. 902, eitem 16(c) (*Goleuadau strydoedd*): Gan fod Mr Neil Garrod, swyddog y cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am oleuadau strydoedd, adref o'i waith oherwydd anhwylder, dywedodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai'n cysylltu ag ef eto. Gan fod nam ar bum colofn o oleuadau'r ffordd osgoi o Heol Caemorgan hyd gylchfan yr ysbyty, gofynnwyd i'r clerik anfon llythyr at Asiant Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i ddelio â'r mater; ychwanegodd y Cyng. Miles mai adran Edwina Hart AC oedd â chyfrifoldeb am briffyrdd y wlad.

Tud. 902, eitem 16(d) (*Agoriad Swyddogol y Bandstand*): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod yr agoriad swyddogol wedi bod yn ddigwyddiad hyfryd.

Page 897, item 10(a)(i): The Maesglas village green public enquiry will now take place on 16 December and not the 15 December.

Page 898, item 10(a)(ii): A meeting to discuss the improvements has been held with the partners using Yr Hafod. A response is expected soon from the Healthier Communities Scrutiny Committee.

Page 898, item 10(b)(v): Cardigan Castle. The chair of the trustees has given a verbal explanation to the clerk regarding the restructuring of staff at Cadwgan (copy included in Correspondence item 11 [197]).

Cllr Mark Cole apologised that the information regarding the restructuring was insufficient and agreed that more feedback is required following the monthly meetings of the trustees. He added that Stephen Jackson would ensure that the three county councillors would receive the necessary information. The staff has secured the support of the union regarding the matter. Scotts will return responsibility for the site to Cadwgan on 21 December with the official opening planned for the spring. Members felt that the town council, as one of the funders, should receive consultation regarding any developments and there needs to be closer cooperation as to the internal development of the site.

It was agreed to invite two members of the trustees to meet the council at a sub-committee on 25 November at the Conference Room at 5.30pm. It was announced that the Annual General Meeting of Cadwgan would take place at Capel Mair vestry on 26 November at 5.30pm.

Page 898, item 10(a)(iv): Cllr Mark Cole stated that he would obtain further information from Cantref and put pressure on the county council to register Bingham Lane.

Page 898, item 10(c)(ii): Cllr Cole was pleased to report that the anti-social behaviour in Napier Street had subsided and that Ceredigion Care Society had been efficiently instrumental in proceedings.

Page 901, item 12 (*Graffiti*): Cllr Neal Jones stated that he had attempted to remove the graffiti from various locations in the town but had found the removal of the black ink difficult. The Mayor thanked Cllr Jones for his effort.

Page 902, item 16(c) (*Street Lights*): As Mr Neil Garrod, county council officer with responsibility for street lights, was away on sick leave, Cllr Adams-Lewis stated that he would contact him in due course. It was reported that five light columns on the by-pass from Caemorgan Road to the hospital roundabout were malfunctioning. The clerk was asked to forward a letter to the North & Mid Wales Trunk Road Agent for action. Cllr Miles added that Edwina Hart AM held responsibility for trunk roads.

Page 902, item 16(d): (*Official Opening of the Bandstand*): Cllr Miles stated that the official opening had been a most enjoyable event.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Cyflwynodd y Maer ei ddyddiadur am fis Hydref ac atgoffodd aelodau am bwysigrwydd Gwasanaeth Sul y Cofio ar 9 Tachwedd.

The Mayor presented his diary for October and reminded members of the importance of the Remembrance Day Service on 9th November.

8. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A140791	63 Maesydderwen	The erection of a balcony to the first floor rear elevation measuring 2m x 3.5m	Council insists that the protection of privacy of surrounding dwellings is paramount.
A104334	13 High Street	Amended plan with ground floor shown as shared ancillary storage.	Council states that the flats are unsuitable for disabled access.
A140699	Castell Aberteifi	Amended plan for canopy, Cardigan Castle.	Council reiterates its original observations and adds that the canopy does not complement the surrounding structure of the castle.
A140691	Pantyywlan Cambrian Quay	Signage	Members reiterate the previous observations and firmly insist that the council bilingualism policy is followed.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Taledigion / Payee	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/11/14	Antur Teifi: Rhent y Swyddfa/Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
28/10/14	Clwb Rygbi C.N. Emllyn RFC: Cinio i Wibdaith yr Henoed. Dinner for Annual Outing.	B7	4022	£1,237.35 + £50.00 (0.00)
28/10/14	Annual Outing/Gwibdaith yr Henoed: Tip i'r staff/Gratuity to staff (Repaid to Mayor's Fund)	B7	4023	£50.00 (0.00)
30/9/14	Trywydd: Cyfieithu ar y pryd. Simultaneous translation (2/9/14) (7/10/14)	A17	4024	£113.40 (18.90) £134.40 (22.40)
14/10/14	Cardibanners: Poster i Bartneriaeth Canol Dref / Posters for Town Centre Partnership	D6	4025	£90.00 (0.00)
20/10/14	Newsquest: Hysbysebion/Adverts – Cyfarfod Blynyddol / King George 5 th Playing Field AGM. Gwibdaith yr Henoed / Annual Outing	A8	4026	£84.60 (14.10) £147.59 (24.60)
28/10/14	Richards Bros: Bysiau i'r wibdaith/Annual Outing coaches	B7	4027	£470.00 (0.00)
31/10/14	L. W. Jones: Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Hydref/October)	A3	4028	£732.95 (0.00)
31/10/14	Society of Local Council Clerks: Aelodaeth/Membership 2014	A10	4029	£147.00 (0.00)
2/11/14	Anvil Fabrication: Atgyweirio gwifren y cae chwarae aml-bwrpas/Refurbishment of MPPA	C4	4030	£420.00 (70.00)
31/10/14	Antur Teifi: Rhent yr Ystafell Gynhadledd. Rent of Conference Room (7/10/14, 21/10/14) Cyfarfod Blynyddol/King George 5 th AGM (15/10/14)	A7 C4	4031	£60.00 (10.00) £30.00 (5.00)
3/11/14	D. E. Owen & Sons: Torri porfa Cae Chwarae Brenin Siôr Sed. Grasscutting of King George 5 th Playing Field	C4	4032	£1,947.54 (324.59)
16/10/14	David Evans & Sons: Decanter & gwydrau/glasses (Ceri Wyn Jones) & plâc/plaque	B5	4033	£130.40 (21.73)
16/10/14	David Evans & Sons: Plâc/Plaque for Bandstand	B5	4033	£5.00 (0.83)
31/10/14	Bachan Deche / Handyperson (Hydref/October)	A18	4034	£220.50 (36.75)

Eglurodd y clerc bod costau torri'r borfa ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed wedi cynyddu yn ôl 14% dros y flwyddyn gan fod porfa y cae pêl-droed wedi ei dorri deirgwaith yn ychwanegol.

The clerk explained that the grass cutting of King George 5th Playing Field had increased by 14% during the year due to three extra cuts being made on the football field during the season.

Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod y biliau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr Llwyd Edwards that the above bills be paid.

Derbyniadau/Receipts: 9/9/14 *Llog y Banc/Bank Interest* £4.29
19/9/14 *Wales Audit Office* £30.00

Cronfa'r Maer/Mayor's Fund:

29/10/14 *Raffl Gwibdaith yr Henoed.*
Annual Outing Raffle £260.00

Diolchodd y Maer i'r cynghorwyr a Mrs Rose Brabrook am y gwobrau raffl.

The Mayor thanked members and Mrs Rose Brabrook for the raffle prizes.

Cyflwynwyd y grantiau isod nos Fawrth, 4 Tachwedd am 5.30 o'r gloch yn yr Ystafell Gynhadledd.

The following grants were presented on Tuesday, 4 November at 5.30pm in the Conference Room.

Theatr Byd Bychan / Small World Theatre	£500
Menter Aberteifi (Gŵyl Afon a Bwyd / River & Food Festival)	£500
Shelter Cymru	£100
Theatr Mwldan (D3b)	£2,300
"Y Dwrgi" (Papur Bro Aberteifi)	£500
Eglwys y Santes Fair / St Mary's Church (Grand Piano Fund)	£300

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Cynhaliwyd cyfarfod a drefnwyd gan y cyngor sir yn neuadd Ysgol Uwchradd Aberteifi nos Fercher, 29 Hydref i drafod y ddogfen "Mae'n Amser Trafod Toriadau – Ymgynghoriad ar Gyllideb 2015-16". Dosbarthwyd copïau i'r cynghorwyr gan y Cyng. Adams-Lewis a gofynnodd yntau iddynt ddychwelyd yr holiadur gyda'u sylwadau. Cytunwyd bod yr aelodau yn ehostio'r clerc erbyn yr is-bwyllgorau, 18 Tachwedd er mwyn dychwelyd yr holiadur i'r cyngor sir cyn y dyddiad cau, sef 19 Tachwedd.**

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Pont Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Miles bod gwaith ar y bont yn symud ymlaen yn hwylus er bod y llanw uchel wedi amharu ar y gwaith ar adegau. Bydd cwmni Derwen Lighting yn ailosod y ddau golofn golau ar y ffordd, er bod gobeithion am oleuadau ar y bont-gerdded yn edrych yn dywyll.**

(c) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Problemau llifogydd a draeniau Feidrfair: Mae Dŵr Cymru wedi gwneud ymchwiliad gyda chamerau ar brif ddraeniau Feidrfair a nifer o linellau ystlysol yn yr ardal. Yn dilyn yr archwiliad gan beiriannydd yr ardal, Gregg Mackay, ni chafwyd diffygion ar y llinell. Ymgwymerwyd archwiliad pellach ar y llinellau ystlysol, ac eto ni welwyd unrhyw broblem arnynt. Ychwanegodd Dŵr Cymru nad oedd problemau llifogydd Feidrfair yn rhan o'u cyfrifoldeb.**

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) A consultation meeting organised by the county council was held at Ysgol Uwchradd Aberteifi hall on Wednesday, 29 October to discuss the document "It's Time to Talk Cuts – 2015-16 Budget Consultation. Copies were distributed by Cllr Adams-Lewis who requested councillors to return the enclosed questionnaire. It was agreed that members email the clerk by the sub-committees to be held on 18 November; the questionnaire to be returned to the county council by 19 November.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cardigan Bridge: Cllr Miles reported that work on the bridge was proceeding and that hopefully it would be completed two weeks ahead of schedule. The recent inactivity on the above bridge is mainly down to high tides preventing the contractor reaching areas requiring work. Completion of the work is imminent. The lighting contractors, Derwen Lighting, will then take over the closure and will begin their work immediately. The two column lights will be reinstated although replacing the lights on the footbridge still seems a forlorn expectation.

(c) Cllr Mark Cole:

- (i) Flood and drain problems in Feidrfair: Welsh Water has undertaken a CCTV survey on the main run of the sewers in Feidrfair and a number of lateral pipe work in the area. Following the review by the area engineer, Gregg Mackay, no defects in the sewer line was detected. A review was carried out later of the lateral lines and similarly no defects were identified with the system. Welsh Water added that the flooding issues experienced in Feidrfair are not within their remit.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
174	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Cadarnhau y bydd Mrs Sara Edwards, Is-Arglwydd Raglaw Dyfed yn mynychu'r Gwasanaeth Coffa.</i> Confirmation that Mrs Sara Edwards, the Deputy Lord Lieutenant of Dyfed, will attend the Remembrance Service on 9 November.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
175	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Chancery Lane, 7/12/14. 8.00am-6.00pm</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
176	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Angen cadarnhad fel a ganlyn:</i> Confirmation required regarding the application of financial assistance for Pentop that the project will be completed during 2014-15 and that the grant will be claimed by 1 March 2015.	<i>Copi wedi ei drosglwyddo i'r Cyng. Catrin Miles ar 23/10/14. Cadarnhaodd hi a'r Cyng. Llwyd Edwards bod pob ymdrech yn cael ei wneud i symud ymlaen â'r gwaith.</i> Copy received by Cllr Miles on 23/10/14. Cllrs Miles and Llwyd Edwards confirmed that much effort is needed to move on with the necessary work.
177	CSC/CCC (Rosemary Rees): <i>Cais gan Rosemary Rees am bwerau dirprwyol i drafod y canopi.</i> Rosemary Rees requests the council's authority to deal under delegated powers the matter of replacing the pvc canopy with suitable material.	<i>Trafodwyd tan eitem 8 (Cynllunio).</i> Discussed under item 8 (Planning).
178	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Gwybodaeth am dorri coeden sycamorwydden yn Stryd y Cei.</i> Notification of tree works with regard to the proposed felling of a sycamore tree at 19 Quay Street.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
179	CSC/CCC (Allan Lewis): Balchder Pentrefi: <i>Cais i ddychwelyd "Cofnod o Gefnogaeth".</i> Request to return the "Record of Support".	<i>Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer.</i> The document was signed by the Mayor and returned to the county council.
180	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Copi o hysbyseb a osodwyd yn y wasg yn gwahodd ceisiadau gan gontractwyr i glirio eira, 2014-15.</i> Copy of advert to be placed in press inviting expressions of interest for snow clearing services.	<i>Mae'r copi o'r hysbyseb wedi ei osod ar yr hysbysfwrdd.</i> <i>Copy of advert has been displayed in the notice board.</i>
181	CSC/CCC (Alan Garrod): <i>Holiadur Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2015 Crime & Disorder Strategic Assessment (Questionnaire)</i>	<i>Y Maer a'r clerc i lanw'r holiadur.</i> It was agreed that the Mayor and clerk would complete the questionnaire.
182	Age Cymru Ceredigion: <i>Cyfarfod Blynnyddol/ AGM at Lampeter Rugby Club, 20/11/14, 2-4.00pm</i>	<i>Poster wedi ei osod yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster placed in notice board.
183	Mark Williams AS / MP: <i>Llythyr o ymddiheuriad am ei absenoldeb o Wasanaeth Dydd y Cofio.</i> Letter of apology for his absence from the Remembrance Day Service on 9/11/14.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
184	Elin Jones AC/AM: <i>Cadarnhad o'i phresenoldeb yng Ngwasanaeth Dydd y Cadoediad / Confirmation of her presence at the Remembrance Day Service.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
185	Joyce Watson AC/AM: <i>Cadarnhad o'i phresenoldeb yng Ngwasanaeth Dydd y Cadoediad / Confirmation of her presence at the Remembrance Day Service.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.

186	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwahoddiad i fynychu cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dref, 18 Tachwedd o 4.30-6.30yh.</i> Natural Resources Wales: An invitation to the public meeting at the Guildhall on 18 November 4.30-6.30pm for a progress update of the recent investigations NRW personnel have undertaken into the potential for a future Flood Defence Scheme in Cardigan.	<i>Copi wedi ei flaenyrru i'r holl gynghorwyr.</i> Copy forwarded to all members.
187	<i>Tenovus: Gwahoddiad i fynychu digwyddiad er lles Uned Cefnogi Cancr Symudol.</i> Invitation to attend the Mobile Cancer Support Unit at Bronesbury Garden Centre on 5 November at 11.30am	<i>Nodwyd.</i> Noted.
188	<i>RAY Ceredigion: Cyfarfod Blynyddol, 17 Tachwedd, Pengloyn, Stryd y Tabernacl, Aberaeron, 5.30yh.</i> AGM on 17 November at Pengloyn, Tabernacl Street, Aberaeron, 5.30pm	<i>Bydd y Cyng. John Adams-Lewis yn mynychu'r cyfarfod.</i> Cllr John Adams-Lewis will attend the meeting.
189	<i>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: CDLI: Diweddariad. Yn Llyfrgell Aberteifi/Cardigan Library.</i> LDP Update: Safle we/Website: www.pcnpa.org.uk	<i>Nodwyd.</i> Noted.
190	<i>Menter Aberteifi: Cais i'r cyngor enwebu aelod i fynychu cyfarfodydd y bwrdd.</i> Application for a council nominee to attend board meetings.	<i>Cytunodd y Cyng. Jane Roche a Neal Jones gysylltu â'i gilydd gan sicrhau bod presenoldeb gan y cyngor yn y cyfarfodydd. Y Clerc i anfon manylion cyswllt y Cyng. Jones at Menter.</i> Cllrs Jane Roche and Neal Jones agreed to liaise and thereby ensure council representation at meetings. The clerk was asked to forward Cllr Jones' contact details to Menter.
191	<i>Cyngor Cymuned Llangoedmor Community Council: Copi o ymateb y cyngor i Adroddiad Williams a'r Papur Gwyn.</i> Copy of the council's response to the Williams Report and White Paper on Reforming Local Government.	<i>Gofynnodd y Cyng. Mark Cole am gopi o'r llythyr.</i> Cllr Mark Cole requested a copy of the letter.
192	<i>The Barony of Cemais: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Ginio'r Maer.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Buffet Dinner, Llwyngwair Manor, 8/11/14, 6.30pm.	<i>Wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation given to Mayor.
193	<i>Cyngor Cymuned Llandudoch Community Council: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r Gwasanaeth Coffa, 9/11/14 yn Neuadd y Pentref am 5.00yh.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Remembrance Service at the Memorial Hall at 5.00pm.	<i>Wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation given to Mayor.
194	<i>Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
195	<i>Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
196	<i>Archwiliad mewnol gan/Paper Trail by Cyng. Cllrs Melfydd George, Akira Shimazaki, 10/10/14, 4.00pm.</i>	<i>Cadarnhaodd y Cyng. Shimazaki bod y cyfrifon a archwiliwyd yn gywir.</i> Cllr Shimazaki confirmed that the random inspection of accounts had been successful.
197	<i>Cadwgan: Datganiad gan Gadeirydd Cadwgan ynghylch ailstrwythuro'r staff.</i> Statement by the Chair of Cadwgan regarding the restructuring of staff.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
198	<i>W. J. Williams & Davies: Llythyr yn cadarnhau bod y Clwb Bowls yn barod i symud ymlaen gyda'r brydles.</i> Letter confirming that the Bowls Club has instructed their solicitor to proceed on the basis of the draft lease submitted to them for approval on 3/6/11.	<i>Y clerck i chwilio am gopiâu diweddaraf o'r cynlluniau a'u hanfon i aelodau.</i> Clerk to find latest copies of plans and forward to members.
199	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Hydref.</i> Handyperson: October report.	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.

200	CSC/CCC (Sonia Davies): <i>Protocol ar gyfer Sul y Cofio ac achlysuron cenedlaethol eraill</i> /Protocol regarding Remembrance Day Service and other national events.	<i>Trafodwyd y protocol ar gyfer cyflwyniadau i'r teulu brenhinol. Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod Cyngor Tref Aberteifi yn cadw at y drefn sydd wedi ei hymarfer ers blynyddoedd, sef bod Maer y Dref yn arwain yr orymdaith; eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards.</i> The protocol for presentations to the royal family was discussed. Cllr Mark Cole proposed that Cardigan Town Council adheres to its historical protocol with the Mayor leading the procession; this was seconded by Cllr Llwyd Edwards.
-----	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Alan Garrod:	<i>Rheolwr Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion / Community Safety & Civil Contingencies Manager – Ceredigion Community Safety Partnership</i>
Allan Lewis:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.</i> Head of Economic and Community Development Services.
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
Keith Morgan:	<i>Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.</i> Head of Assets and Transportation Services
Paul Arnold:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol</i>
Rosemary Rees:	<i>Swyddog Rheoli Datblygu. Gwasanaethau Ffordd o Fyw / Development Control Officer, Lifestyle Services</i>
Sonia Davies:	<i>Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr / Personal Assistant to the Chief Executive.</i>

12. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Gan fod toiledau Feidrfair bellach wedi eu cau, ni chafwyd ymateb boddhaol oddi wrth y cyngor sir ynglŷn â darparu cyfleusterau toiledau ar gyfer Ffair Aberteifi. Cynigiwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole bod y cyngor yn gwneud ymholiadau ar osod toiledau symudol mewn man addas. Byddai angen oddeutu pedwar neu bump ohonynt yn ogystal ag un i'r anabl. Cytunodd y Cyng. Graham Evans gysylltu â Mr Vernon Studt ynglŷn â lleoliad y toiledau.

As the Feidrfair public conveniences had been permanently closed by the county council, it was disappointing that no positive response had been received from the authority regarding supplying portable toilets for Cardigan Fair. It was proposed by Cllr Llwyd Edwards and seconded by Cllr Mark Cole that enquiries be made to provide facilities; it was agreed that four or five units would be required and also one for the disabled. Cllr Graham Evans agreed to contact Mr Vernon Studt regarding the possible location of the toilets.

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 21 Hydref.

Confirmation of 21 October Sub-committee Minutes.

Tud. 905: Mae angen newid rhif cais cyllunio sydd yn cyfeirio at ddatganiad o ddiddordeb y Cyng. Richard Jones i A140756 (Crugmore, Penyparc).

Page 905: Reference of the declaration of interest recorded by Cllr Richard Jones should read A140756 (Crugmore, Penyparc).

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendment, Cllr John Adams-Lewis proposed that the minutes were correct; this was seconded by Cllr Jane Roche

Materion yn codi:

Tud. 906, eitem Priffyrdd (d) (Goleuadau Lôn Cnwcydintir): Cytunwyd bod y clerc yn cysylltu â chwmi Derwen Lighting gan ofyn iddynt gywiro'r golau uchaf ar y lôn yn unig.

Tud. 906, eitem Priffyrdd (e) (Potiau blodau Feidrfair): Cytunwyd i'r cyngor sir symud y potiau blodau sylweddol sydd yn ymyl y toiledau yn Feidrfair i safle tu allan i'r Ysgol Gynradd wedi'r Ffair.

Matters arising:

Page 906, item Highways (d) (*Cnwcydintir Lane street lights*): It was agreed that the clerk requests Derwen Lighting to repair the upper light only.

Page 906, item Highways (e) (*Feidrfair flower containers*): It was agreed that the county council may move the two concrete containers from Feidrfair near to the entrance at Ysgol Gynradd Aberteifi following Cardigan Fair.

Adroddiad y Bachan Deche: Dywedodd y Bachan Deche bod y gwaith wedi ei orffen ar y man chwarae aml-bwrpas ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Gofynnodd am ganiatâd i osod blodau'r gaeaf. Cytunodd y cyngor ar hynny.

Handyperson's Report: The Handyperson reported that the work on replacing the wire at the multi-purpose play area at King George 5th Playing Field had been completed. He asked for permission to plant winter flowers in the containers; this was granted.

Coeden Nadolig: Cytunodd yr aelodau osod coeden Nadolig tu allan i Neuadd y Dref. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chanolfan Gerddi Penrallt i archebu un tebyg i'r un oedd yno yn 2013.

Christmas Tree: Members agreed to place a Christmas tree outside the Guildhall. The clerk was asked to place an order with Penrallt Garden Centre for a similar tree as provided in 2013.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a chynhaliwyd eitemau 14 a 15 mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed items 14 and 15 in committee. The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Mark Cole.

14. **Personél / Personnel.**
Adolygiad blynyddol y Clerc / Clerk's annual review.
15. **Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.40yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.40pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date